

LLYSNAFEDD

Mae creu llysnafedd yn ddifyr iawn, mae'n ludiog ac yn drioglyd, gallwch ei wneud ym mhob math o liwiau, gallwch roi pethau ynddo ac mae'n gwneud pethau rhyfedd os ydych yn ei wasgu'n araf neu'n gyflym.



'DYSGU DRWY WYDDONIAETH'

RYSAIT

CYNHWYSION

- Glud PVA
- Soda pobi
- Hylif biolegol Formil (Lidl)
- Paent posterï neu liwiau bwyd

DULL

- Yn fras, 1 rhan o Formil i 4 rhan o lud PVA
- Ychwanegwch y Formil yn araf
- Os yw'n rhy ludiog - ychwanegwch ragor o Formil
- Os yw'n rhy galed - ychwanegwch ragor o PVA

Gwyliwch y fideo yma:
youtu.be/1CXGUvhY_Ds

GEMAU LLYSNAFEDD

Ymestynnwch eich llysnafedd yn araf - beth sy'n digwydd?
Ymestynnwch eich llysnafedd yn **gyflym** - beth sy'n digwydd?

Pan fyddwn yn creu llysnafedd, rydym yn gwneud gwyddoniaeth bolymerau, sef yr hyn y mae cemegydd yn ei wneud wrth wneud popeth o gewynnau i baent, drwy gysylltu deunyddiau â'i gilydd.

Cadwyn fawr o foleciwlau wedi'u cysylltu â'i gilydd yw polymer - gair Groegaidd yw hwn sy'n golygu 'llawer o rannau'.

PLASTIG POLYMER!



Mae llysnafedd yn ddifyr iawn, OND, pan fyddwn yn creu llysnafedd, byddwn wedi gwneud PLASTIG!

Dim ond y dŵr sy'n gwneud i'r llysnafedd deimlo fel hylif – os byddwn yn gadael i'r dŵr anweddu, byddai gennym dalp solet o blastig anfodiraddadwy!

Os hoffwn greu llysnafedd, mae ffyrdd da o leihau swm y plastig rydym yn ei wneud.

- Cadwch eich llysnafedd! Peidiwch â gwneud rhagor o hyd, storiwch ef mewn blwch aerglos ac aildefnyddiwch ef.
- Peidiwch ag ychwanegu rhagor o blastig (fel pefr a gleiniau) at eich llysnafedd, mae hen ddigon o blastig ynddo'n barod!
- Unwaith rydych wedi gorffen chwarae gyda'r llysnafedd, gallwch ei falu gyda finegr.

NEU Gwnewch llysnafedd bioddiraddadwy!

LLYSNAFEDD PLISG PSYLLIUM

Gwylwch y fideo yma:
youtu.be/1CXGUvhY_Ds

- 1 llond llwy bwrdd o blisg psyllium (gallwch brynu plisg psyllium o siop bwyd iechyd).
- Ychwanegwch 1 cwpan o ddŵr at y powdwr plisg psyllium, ychwanegwch ddiferyn o liw bwyd, yna cymysgwch yn drylwyr.
- Rhewch y cymysgedd yn y ficro-don am 3 munud (gofynnwch i oedolyn eich helpu). Bydd y cymysgedd yn boeth iawn ar ôl iddo fod yn y ficro-don.
- Oerwch y cymysgedd yn yr oergell tan ei fod ar dymheredd ystafell.
- Mae eich llysnafedd bioddiraddadwy nawr yn barod.

Dolen I'r fideo cyfarwyddiadau:
https://youtu.be/1CXGUvhY_Ds



Swansea
University
Prifysgol
Abertawe

Gwefan: s4science.co.uk
Facebook: @swanssci Twitter: @swansci4

